## Tasg 3

# Ras yr Wyddfa

1. Chwiliwch am y wybodaeth am Ras yr Wyddfa.

Ewch i http://www.snowdonrace.co.uk/cy/ > Gwybodaeth > Amserlen

Pryd mae'r ras nesaf?
Faint o'r gloch mae'r ras gyntaf?
Pryd mae ras y teulu?
Beth sy'n digwydd y diwrnod wedyn?
Faint ydy pris y tocynnau i'r cyngerdd y noson wedyn?

Ewch i http://www.snowdonrace.co.uk/cy/ > Siop

Faint ydy ...?
- hwdi
- crys T
- mwg

Ewch i http://www.snowdonrace.co.uk/cy/ > Galeri

Disgrifiwch un o'r lluniau i'ch partner chi.
Bydd eich partner chi'n edrych ar y lluniau a bydd e'n / o'n / hi'n gwrando. Bydd e'n / o'n / hi'n trio dewis y llun rydych chi'n disgrifio.

| Geirfa | |
|---|---|
| y diwrnod wedyn | the following day |
| cyngerdd | concert |
| y noson wedyn | the following night |
| disgrifio | to describe |
| dewis | to choose |

2. Mae ffrind yn mynd i redeg yn y ras.

Rydych chi'n mynd i roi cyngor i'ch ffrind. Ydych chi'n cofio sut i roi cyngor? Edrychwch ar **Ciwb 10** os ydych chi eisiau help ac ysgrifennwch rai o'r patrymau pwysig yma:

Dwedwch wrth eich ffrind:
• sut i baratoi
• beth i wisgo ar y dydd
• sut i gyrraedd yr Wyddfa – edrychwch ar fap a rhowch y cyfesurynnau, e.e.

Rhaid i ti fynd i ... ac yna rhaid i ti droi i'r ...

Rhaid i ti fynd ar yr A ... mor bell â ... ac yna, rhaid i ti droi i'r ...

Rhaid i ti droi i'r chwith / dde a rhaid i ti fynd ar yr A... mor bell â ...

3. Mae ffrind arall eisiau rhedeg yn y ras hefyd. Anfonwch e-bost at y ffrind yna'n rhoi cyngor ar:
• sut i baratoi
• beth i wisgo ar y dydd
• sut i gyrraedd yr Wyddfa – edrychwch ar fap a rhowch y cyfesurynnau.

| Geirfa | |
|---|---|
| cyngor | advice |
| cyfesurynnau | co-ordinates |
| mor bell â | as far as |